**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**
**19 MEDI 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 19 Medi 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Andy Dunbobbin, David Evans, Veronica Gay, Cindy Hinds, Dave Hughes, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Chris Dolphin a Colin Legg, a'r Cynghorydd Derek Butler (Aelod Cabinet dros Ddatblygiad Economaidd)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Ian Dunbar, Patrick Heesom, Christine Jones a David Wisinger, yn bresennol fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad; Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); a'r Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant).

Rheolwr Datblygu (cofnod rhif 23)
Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (cofnod rhif 24)
Rheolwr Gwasanaeth Gwastraff ac Ategol (cofnod rhif 26)
Rheolwr Strategaeth Priffyrdd (cofnod rhif 27)
Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd (cofnod rhif 28)

**ARSYLWYR:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 21. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 22. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 23. POLISI AC YMGYNGHORIAD GORFODI CYNLLUNIO

Cyflwynodd y Cynghorydd Chris Bithell yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Polisi Gorfodi Cynllunio drafft am ymgynghoriad cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol ac i rannu manylion yr ymgynghoriad gorfodi yn y dyfodol. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn helpu i wella dulliau cyfathrebu a hygyrchedd i gyflawni system gorfodi cynllunio mwy effeithiol.

Esboniodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) fod adolygiad y polisi wedi cael ei gydlynu gydag ail-strwythuriad arfaethedig y tîm Rheoli Datblygiadol a chafodd ei lywio gan newidiadau mewn deddfwriaeth a chanlyniadau adroddiad Adain Archwilio Mewnol diweddar i'r swyddogaeth orfodi. Crynhowyd prif newidiadau'r polisi gan y Rheolwr Datblygu, a esboniodd hefyd y byddai'r gwaith ail-strwythuro yn galluogi i adnoddau gael eu defnyddio mewn ffordd wahanol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Owen Thomas, cyfeiriodd y Rheolwr Datblygu at heriau ceisiadau cynllunio ôl-weithredol, ond cynghorodd y byddai'r gwaith ail-strwythuro arfaethedig yn cryfhau'r broses dracio ar geisiadau o'r fath, ac amserlenni y tu allan lle byddai unrhyw ddatblygiad yn cael ei eithrio rhag camau gorfodi posibl.

Siaradodd y Cynghorydd Paul Shotton o blaid yr argymhellion a gofynnodd am y dyddiad gweithredu. Esboniwyd bod y rhan fwyaf o gamau yn digwydd yn y mis cyfredol, gyda'r cyfnod ymgynghori ailstrwythuro eisoes ar waith, tra byddai camau eraill, megis newidiadau i feddalwedd TG yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau.

Gofynnodd y Cynghorydd David Evans i'r polisi gynnwys darpariaeth i'r swyddog achos drafod ei benderfyniad ar gamau gorfodi gyda'r aelod lleol ac i'r wybodaeth hon fod ar gael. Cydnabuwyd pwysigrwydd ymgysylltu ag Aelodau lleol gan swyddogion a ddywedodd y gall adroddiadau buddioldeb, yn cynnwys penderfyniadau gorfodi, ddod yn hygyrch i'r cyhoedd yn y dyfodol. O ran anhysbysrwydd cwynion, byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus pe bai'r gofrestr cwynion gorfodi yn dod ar gael ar y wefan. Byddai effaith unrhyw absenoldebau hirdymor ar lwythi achos swyddog yn cael ei leihau gan yr ymgynghoriad ailstrwythuro a'r gwaith achos, gyda gwybodaeth gorfodi wedi'i ymestyn ar draws y tîm cyfan. Byddai amserlenni ar gyfer ymweliadau safle â gwersylloedd sipsi/teithiwr anawdurdodedig (fel y cyfeirir atynt yn y polisi) yn cael eu diwygio os bydd y tir yn eiddo i'r Cyngor. Os byddai'r gwersyll ar dir y Cyngor, cydnabuwyd mai'r dull gweithredu cyflymaf fyddai drwy ein rôl fel perchennog tir, yn hytrach na thrwy orfodaeth cynllunio.

Yn dilyn sylw gan y Cynghorydd Cindy Hinds, esboniwyd y byddai'r newidiadau arfaethedig yn helpu i wella'r gwaith o gofnodi ac olrhain cwynion er mwyn sicrhau bod yr achwynydd yn cael ymateb ysgrifenedig, a chopi'n cael ei anfon at yr Aelod lleol.

Mewn ymateb i'r Cynghorydd Veronica Gay, cytunodd y Rheolwr Datblygu i egluro 'cwynion ysgrifenedig' yn y polisi, a chynnwys arwyddion cryfach ar adrannau perthnasol y tu allan i'r adran Gynllunio, er enghraifft Tai neu Briffyrdd. Rhoddodd fanylion am y feddalwedd TG newydd hefyd, sy'n rhyngweithio ag amserlen calendr i gofnodi unrhyw amserlenni cynyddol yn awtomatig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen Thomas at y nifer o achosion lle na ellid cymryd camau gorfodi oherwydd bod y terfyn amser wedi'i dorri. Nodwyd y byddai'r trefniadau newydd yn gwella tryloywder ar achosion caeedig ac y byddai'r wybodaeth hon ar gael yn yr adroddiadau buddioldeb.

Cytunodd swyddogion i ddarparu rhifau ffôn cyswllt ar gyfer timau'r Gogledd a'r De, ar ôl i'r rhain gael eu recriwtio, yn ôl cais y Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r Polisi Gorfodi Cynllunio diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad yn amodol ar y Cabinet yn ystyried y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor.

## 24. CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD YNGHYLCH AMODAU ARFAETHEDIG GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS RHEOLI CŴN DRAFFT

Cyflwynodd y Cynghorydd Carolyn Thomas adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar amodau arfaethedig Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn yn Sir y Fflint sy'n cwmpasu rheoli cŵn a baw cŵn, a fyddai'n disodli'r Gorchymyn Rheoli Cŵn presennol.

Rhoddodd y Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol fanylion am yr ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion, a oedd yn dangos cefnogaeth gref dros yr amodau arfaethedig. Er bod 68% o'r ymatebion yn cytuno gyda gwahardd cŵn rhag lleiniau chwaraeon wedi'u marcio, dyma oedd y cynnig a gefnogwyd leiaf a chafodd wrthwynebiadau hwyr. Oherwydd hyn a phryderon nad oedd rhai unigolion yn ymwybodol o'r ymgynghoriad, nododd yr adroddiad ddau opsiwn: (1) argymell bod y Cabinet yn ystyried yr holl amodau arfaethedig a (2) bod y Cabinet yn ystyried cyfnod pellach o ymgynghoriad lleol i geisio safbwyntiau ar p'un a ddylid gwahardd cŵn o leiniau chwaraeon wedi'u marcio mewn ardaloedd lle nad oedd cyfleusterau amgen ar gyfer mynd a chŵn am dro.

Dywedodd y Cadeirydd fod Opsiwn 1 wedi cael cefnogaeth gyffredinol gan Aelodau a oedd yn bresennol yn y gweithdy yn gynharach yn y flwyddyn.

I letya rhai pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, cynigiodd y Cynghorydd Paul Shotton Opsiwn 1, gyda diwygiad 'i ganiatáu cŵn o amgylch perimedr lleiniau chwaraeon ar dennyn'. Cadarnhaodd Swyddogion y byddai gorfodi'r Gorchymyn Rheoli Cŵn presennol yn dod i ben ar 20 Hydref 2017 oni bai bod y Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored wedi'i fabwysiadu i ddod yn ei le.

Nododd y Cynghorydd Owen Thomas fod rhai lleiniau chwaraeon heb eu marcio ac na fyddent yn cael eu cwmpasu gan yr amodau. Teimlai y dylai cyfeiriad at gaeau gwmpasu ardal gyfan y caeau hynny ac y dylid rhoi cŵn ar dennyn wrth ddefnyddio llwybrau cerdded cyhoeddus, gan ychwanegu y byddai camau ataliol o'r fath yn osgoi damweiniau posibl. Dywedodd y swyddogion fod amodau (i) a (v) yn mynd i'r afael â'r pryderon ac y byddai arwyddion priodol yn cael eu harddangos. Ar ôl ymholiadau pellach, esboniwyd yr ymgynghorwyd â'r Cynghorau Tref a Chymuned ar dir yr hoffent iddo gael ei gynnwys yn y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ac y byddai angen caniatâd ar unrhyw dir preifat pe bai ai am gael ei gynnwys ar gam yn y dyfodol.

Cymharodd yr aelodau y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Shotton i Opsiwn 2.

Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y cydnabuwyd bod llawer o berchnogion cŵn yn gallu rheoli eu cŵn pan fyddant yn cael eu gollwng yn rhydd am ymarfer corff a bod amod (v) wedi ei gynnwys fel amddiffyniad lle nad dyma'r achos.

Cafodd diwygiad y Cynghorydd Shotton ei eilio gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Cindy Hinds ar wahardd cŵn rhag mynd i mewn i unrhyw ardaloedd chwarae, esboniodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) y byddai angen gwahanol arwyddion ar gyfer gwahanol ardaloedd.

Tra roedd y Cynghorydd Veronica Gay yn cytuno gyda'r diwygiad, teimlai ei bod yn bwysig cydnabod yr angen i gŵn gael ymarfer corff oddi ar dennyn ac awgrymodd y gallai ardaloedd dynodedig fod yn destun trafodaeth ar gyfer y Pwyllgor neu Weithgor yn y dyfodol.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Joe Johnson, eglurodd y Cynghorydd Carolyn Thomas fod baw cŵn yn orfodadwy o dan y Gorchymyn presennol yn unig. Cytunodd gyda phwysigrwydd darparu ar gyfer cerddwyr cŵn a chydnabod y buddion iechyd a chymdeithasol cysylltiedig. Tra roedd deddfwriaeth yn darparu ar gyfer mannau agored i ddarparu ymarfer corff i gŵn, byddai’r syniad o ardaloedd dynodedig yn ystyriaeth dda gan y Cynghorau Tref a Chymuned.

Ar ôl trafod ymhellach, eglurwyd bod Opsiwn 2 i estyn yr ymgynghoriad ar leiniau chwaraeon wedi’u marcio yn golygu y gellid rhoi'r amodau sy’n weddill ar waith.

Cynigiodd y Cynghorydd Evans Opsiwn 2 a theimlai ei fod yn mynd i’r afael â’r diwygiad a gyflwynwyd. Eiliwyd hyn. Cytunodd pedwar Aelod gydag Opsiwn 1 a chytunodd saith Aelod ag Opsiwn 2. Felly, aethpwyd gydag Opsiwn 2.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, mae Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd yn argymell gwneud Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored i gwmpasu rheoli cŵn a baw cŵn yn Sir y Fflint, gyda'r amodau canlynol i'r Cabinet ar gyfer penderfyniad terfynol. Bydd gofyn i’r Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored sicrhau bod unigolion sy’n gyfrifol am gi i wneud y canlynol:

(i) Cael gwared ar wastraff eu ci o’r holl lefydd cyhoeddus yn Sir y Fflint.
(ii) Gwahardd cymryd, neu ganiatáu i’r ci fynd neu aros yn
- Yr holl ardaloedd o fewn tir ysgolion,
- Ardaloedd chwarae mewn ardaloedd hamdden ffurfiol gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i lawntiau bowlio a chyrtiau tenis
- Ardaloedd chwarae plant caeedig â ffens.
(iii) Cadw eu ci ar dennyn mewn Mynwent.
(iv) Sicrhau bod ganddynt fodd priodol o godi gwastraff eu ci o’r holl lefydd cyhoeddus yn Sir y Fflint.

(v) Rhoi eu ci ar dennyn, pan fydd swyddog awdurdodedig yn gofyn iddynt wneud hynny, os bydd y ci yn rhydd ac yn niwsans neu'n poeni unrhyw unigolyn, aderyn neu anifail arall.

Tynnu'r cynnig o wahardd cŵn rhag yr ardaloedd chwarae mewn lleiniau chwaraeon wedi'u marcio mewn ymateb i ddiffyg ardaloedd agos amgen i gŵn gael ymarfer corff ar yr adeg hwnnw. Caniatáu am gyfnod o ymgynghori pellach ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned i ymgynghori'n lleol ar leiniau chwaraeon wedi'u marcio yn eu hardaloedd; a

(b) Nodi er gwybodaeth, ond yn amodol ar benderfyniad terfynol y Cabinet, bod y Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored sy'n cwmpasu rheolaeth cŵn a baw cŵn yn dechrau ar 20 Hydref 2017, yn dilyn cyfnod rhybudd a chyhoeddusrwydd y Gorchymyn sydd ar ddod.

## 25. CYNLLUN Y CYNGOR 2017-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) Gynllun (Gwella) y Cyngor 2017-23 a oedd wedi cael ei adolygu a'i adnewyddu i adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor am dymor pum mlynedd y weinyddiaeth newydd. Ymhlith y set diwygiedig o chwech blaenoriaeth, tynnwyd sylw at flaenoriaeth y 'Cyngor Gwyrdd' a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r targedau a'r cerrig milltir yn y ddogfen Mesurau a Cherrig Milltir yng Nghynllun (Gwella) y Cyngor 2017 – 23 ac yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion i'w dwyn gerbron y Cabinet cyn i'r Cyngor Sir ei fabwysiadu i'w gyhoeddi yn derfynol.

## 26. TREFNIADAU GORFODAETH AMGYLCHEDDOL A PHARCIO CEIR DIWYGIEDIG

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaeth Gwastraff a Gwasanaethau Ategol adroddiad i ystyried cysylltu â phartner preifat arbenigol i gynnal gweithgareddau gorfodi amgylcheddol ar drosedd lefel isel megis baw cŵn, taflu sbwriel a pharcio ceir ar ran y Cyngor o dan gontract dwy flynedd.

Roedd casgliadau treial 12 mis y cytundeb ffurfiol gyda Kingdom yn gadarnhaol o ran y cynnydd sylweddol yn y nifer o rybuddion cosb benodedig a roddwyd yn ystod yr amser hwnnw a'r effaith ar ganol trefi a mannau agored. Dangosodd dadansoddiad o fathau o sbwriel rhwng mis Gorffennaf 2016 a mis Ebrill 2017 mai sbwriel sigaréts oedd hyn yn bennaf. Roedd telerau'r cytundeb yn golygu bod y gyfran o incwm a gynhyrchir gan y Cyngor yn cael ei defnyddio i ariannu gweithgarwch gorfodi ychwanegol i dargedu ardaloedd penodol lle mae baw cŵn yn broblem. Byddai estyn y peilot tan fis Rhagfyr 2017 yn galluogi ystyriaeth o ddatrysiad tymor hwy.

I fynd i'r afael â phroblem gwastraff ochr, roedd y Cyngor yn bwriadu cymryd ymgynghoriad 3 cham i weithio gyda thrigolion a fethodd i gyflwyno eu gwastraff yn y ffordd gywir ac i ddefnyddio pwerau penodol i gyhoeddi rhybuddion cosb benodedig fel opsiwn olaf. Byddai tîm bach o swyddogion y Cyngor yn

gyfrifol am y dull gorfodi hwn, ochr yn ochr â throsedd amgylcheddol tebyg megis tipio anghyfreithlon, yn ogystal â rhoi cefnogaeth achlysurol i'r darparwr contract ar droseddau amgylcheddol lefel isel.

Croesawodd y Cynghorydd Paul Shotton ganfyddiadau'r adroddiad a siaradodd o blaid yr holl argymhellion.

Cwestiynodd y Cynghorydd David Evans sylwadau ar safle'r Cyngor ar orfodaeth amgylcheddol. Teimlai bod dadansoddi rhybuddion cosb benodedig yn dangos yr angen am fwy o ffocws ar droseddau baw cŵn yn hytrach na thaflu sbwriel ac y byddai dod â'r gwasanaeth yn fewnol yn helpu i flaenoriaethu a mynd i'r afael â'r troseddau mwyaf pryderus. Pwysleisiodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y canlyniadau mwy llwyddiannus o drefnu'r gwasanaeth drwy gontract allanol a sicrhaodd fod camau gorfodi baw cŵn (er ei fod yn fwy heriol i'w orfodi) yn flaenoriaeth allweddol. Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) fod sbwriel sigaréts yn broblem eang a bod effaith y peilot yn amlwg ar draws y sir. Anogodd Aelodau i rannu cudd-wybodaeth ar faw cŵn, gan ddarparu manylion swydd yr uwch swyddog i reoli'r contract allanol a delio gyda'r apeliadau.

Cytunodd Rheolwr y Gwasanaeth Gwastraff a Gwasanaethau Ategol i ddosbarthu'r adroddiad 'Cadwch Gymru'n Daclus', ynghyd â manylion ar y nifer o achosion gorfodi yr aeth y Cyngor â hwy i'r llys.

O ran gorfodi gwastraff ochr, ar gyfer y ddau opsiwn ar gam 1 y broses, esboniwyd y byddai'r bin yn cael ei labelu i gynghori'r trigolion pam bod gwastraff wedi cael ei dynnu oddi yno neu bod un bag ar ôl yn y bin gwag. Pwysleisiwyd na fyddai gwastraff ochr yn cael ei adael y tu allan i eiddo.

Cynigiodd y Cynghorydd Haydn Bateman Opsiwn 1 cam 1 y broses, sef cael gwared ar bob gwastraff ochr yn y lle cyntaf.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai biniau cyhoeddus gyda lle i roi bonion sigaréts yn helpu i leihau sbwriel. Fe'i cynghorwyd bod tafarndai a chaffis yn cael eu hannog i ddarparu cyfleusterau i leihau'r math hwn o sbwriel ac y dylid rhannu cudd-wybodaeth am ardaloedd problemus er mwyn nodi lle mae angen gosod bin.

Croesawodd y Cynghorydd Chris Bithell lwyddiant y peilot a chyfeirio at yr agwedd gryfach a fabwysiadwyd gan rai gwledydd eraill.

Dywedodd y Cynghorydd Owen Thomas nad oedd digon o ddarpariaeth parcio i'r anabl mewn canol trefi ac y dylid marcio llefydd parcio nad ydynt yn llefydd anabl yn glir er mwyn nodi'r glir nad ydynt yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr anabl. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Gwastraff a Gwasanaethau Ategol fod y pwynt olaf wedi'i gytuno fel rhan o bolisi'r Cyngor a bod rhwymedigaethau statudol yn cael eu bodloni. O ran maint y sbwriel a gynhyrchir gan siopau bwyd cyflym, siaradodd am weithio gyda'r sefydliadau hynny ar ymgyrchoedd cenedlaethol a rhannu cudd-wybodaeth ar yr ardaloedd sy'n broblem. Yn dilyn pryderon tebyg gan Aelodau eraill, nododd y Prif Swyddog ei barodrwydd i ysgrifennu at y Gweinidog am y broblem barhaus hon pe bai'r Pwyllgor yn dymuno hynny.

Teimlai'r Cynghorydd Andy Dunbobbin hefyd y gellid cynnal y gwasanaethau gorfodi yn fewnol, gan ddysgu o fentrau diweddar megis Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol. Esboniwyd bod rhoi i sefydliad allanol yn caniatáu mynediad at arbenigedd ac adnoddau ychwanegol.

Wrth gwestiynu cysondeb gorfodi ar draws y sir, dywedodd y Cynghorydd Veronica Gay y dylid gosod targedau penodol ar gyfer pob ardal ac y dylid rhoi adborth i Aelodau lleol mewn ymateb i gudd-wybodaeth a rennir. Yn unol â'r cais, cytunodd y swyddogion i gynnal ymarfer mapio i ddangos lleoliadau'r rhybuddion cosb benodedig a gyhoeddir.

Ar ôl pleidleisio, cafodd Opsiwn 1, cam 1 y broses orfodi gwastraff ochr ei gynnal.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi proses gaffael un Partner Busnes ar gytundeb tymor byr o 2 flynedd (gyda dewis i ymestyn ar sail perfformiad) i gyflawni gorfodaeth o drosedd amgylcheddol lefel isel, rheoli cŵn a throseddau parcio ceir ar ran y Cyngor; a

(b) Bod y Pwyllgor yn argymell Opsiwn 1 i'r Cabinet ar gyfer gorfodi gwastraff ochr.

## 27. DIWEDDARIAD AR ADOLYGIAD TERFYN CYFLYMDER PRIFFYRDD Y CYNGOR

Cyflwynodd Rheolwr Strategaeth y Priffyrdd adroddiad diweddaru ar gynnydd wrth fynd i'r afael ag anghysondebau hanesyddol o fewn gorchmynion terfyn cyflymder presennol, ynghyd â manylion y cam nesaf er mwyn galluogi darpariaeth un Gorchymyn wedi'i gydgrynhoi. Cafodd diweddariad ei gynnwys ar ganlyniad gofynion Aelodau unigol am derfynau cyflymder diwygiedig yn eu wardiau, gydag eglurhad ar feini prawf cenedlaethol Adran yr Economi a Chludiant, lle cafodd yr holl geisiadau eu hystyried.

Wrth grynhoi'r pwyntiau allweddol, tynnodd y Rheolwr sylw at amserlenni disgwyliedig ar gyfer hysbysebu'r Gorchymyn, ynghyd â'r ymgynghoriad i ddelio a gwrthwynebiadau. Pwysleisiodd bwysigrwydd cael y Gorchymyn yn gywir er mwyn lleihau unrhyw risg o her gyfreithiol.

O ran symud yr argymhellion, gofynnodd y Cynghorydd David Evans am amserlenni ar gyfer arwyddion a chafodd wybod mai 4-6 wythnos ar ôl y cyfnod hysbysebu y bydd hyn, oni bai y byddai gwrthwynebiadau'n dod i law.

Cwestiynodd y Cynghorydd Owen Thomas y canlyniadau ar gyfer ffyrdd yn ei ward a chafodd wybod bod yr holl Aelodau lleol wedi cael cynnig y cyfle i drafod y canlyniadau gyda Chydlynwyr Ardal Strydwedd. Awgrymodd y Cadeirydd ei fod yn codi ei bryderon y tu allan i'r cyfarfod. Siaradodd y Rheolwr am y gwaith a gynhaliwyd i gynhyrchu asesiadau manwl sy'n cynnwys ystod o ffactorau cyfrannol a meini prawf cenedlaethol.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Haydn Bateman, eglurodd y Rheolwr mai nod yr adolygiad oedd cael gwared ar anghysondebau a sicrhau bod y terfynau cyflymder yn orfodol.

Atgoffodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) y byddai hysbyseb y Gorchymyn yn galluogi cyfleoedd i godi gwrthwynebiadau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r cynnydd a wnaed ar Adolygiad y Terfyn Cyflymder a'r broses gyfreithiol sy'n ofynnol er mwyn galluogi un Gorchymyn wedi'i gydgrynhoi; a

(b) Bod canlyniad asesiadau gofynion Aelodau ar gyfer diwygiadau terfyn cyflymder unigol, sydd wedi'u hystyried yn erbyn y canllawiau terfyn cyflymder a gynhyrchwyd gan Adran yr Economi a Chludiant, yn cael ei nodi.

## 28. ADOLYGU'R POLISI CYNNAL YN Y GAEAF

Cyflwynodd Rheolwr Rhwydwaith y Priffyrdd adroddiad diweddaru ar newidiadau arfaethedig i'r Polisi Cynnal yn y Gaeaf, ynghyd â manylion ymateb y sir i amodau tywydd anffafriol, gan geisio cymeradwyaeth y Polisi Dosbarthu Bagiau Tywod newydd i gael ei weithredu yn ystod cyfnodau o law trwm neu ddigwyddiadau eraill o lifogydd. Yn ystod y cyflwyniad, crynhowyd dyletswyddau statudol y Cyngor a chafodd y manylion eu rhannu ar drefniadau gweithredu gwasanaeth y gaeaf.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Paul Shotton, esboniodd y Rheolwr fod y Polisi Dosbarthu Bagiau Tywod wedi ei ddatblygu i alluogi ymateb rhanbarthol cyson oherwydd y posibilrwydd o lifogydd i ardaloedd trawsffiniol. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ar gael mynediad at gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynghorau a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Cwestiynodd y Cynghorydd Haydn Bateman y gwariant ar gyfer 2016/17 ac fe'i hysbyswyd bod hyn yn adlewyrchu cynnydd yn y nifer o alwadau am halen ar nosweithiau rhewllyd, yn hytrach na digwyddiadau o eira. Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) y byddai gwybodaeth ar y nifer o alwadau i fynd allan dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor. Yn dilyn awgrymiad gan y Cynghorydd Bateman, cytunwyd y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i'r Pwyllgor edrych ar un o'r cerbydau fflyd graeanu newydd yn Neuadd y Sir.

Canmolodd y Cynghorydd Owen Thomas y gwasanaeth ond tynnodd sylw at yr effaith ar ffyrdd gwledig pe bai erydr eira yn cael eu hatal wrth ymateb i ddigwyddiadau eira. Cytunodd y Rheolwr i drosglwyddo'r sylw hwn i'r Swyddog ar Ddyletswydd ac esboniodd fod ffyrdd yn cael eu blaenoriaethu. Dywedodd fod y Cyngor yn gallu galw ar nifer o gontractwyr amaethyddol ac y byddai'n dosbarthu manylion y rhai a elwir allan dros gyfnod o 3 blynedd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Veronica Gay, rhoddodd swyddogion nodyn atgoffa am y trefniadau cytûn ar y cyd ar gyfer llety gwarchod yn cynnwys Strydwedd a Thai.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn argymell cymeradwyaeth y Polisi Cynnal yn y Gaeaf diwygiedig (2017-19) – Atodiad 1 a'r gweithdrefnau a gynhwysir yn hynny o beth ar gyfer darparu'r gwasanaeth cynnal yn y gaeaf; a

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi manylion ymateb y sir i ddigwyddiadau o dywydd anffafriol ac yn argymell cymeradwyo'r Polisi Dosbarthu Bagiau Tywod newydd – Atodiad 2.

## 29. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol er mwyn ei hystyried.

Yn dilyn awgrym gan y Cynghorydd David Evans, cytunwyd y byddai eitem ar Gludiant Ysgol yn cael ei drefnu ar gyfer mis Rhagfyr 2017, gyda chyfarfod ychwanegol i'w drefnu os oes angen.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diwygio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 30. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd dau aelod o'r cyhoedd ac un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 1.05pm)

……………………………
**Cadeirydd**